OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 308

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws) (Cymru) 2020

**Dehongli**

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "ardal heintiedig" ("*infected area*") yw unrhyw ardal (gan gynnwys gwlad) y mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi datgan, drwy hysbysiad a gyhoeddir ar www.gov.uk, fel ardal lle y gwyddys neu y tybir bod Coronafeirws yn cael ei drosglwyddo'n gyson o fod dynol i fod dynol, neu y mae risg uchel y caiff haint neu halogiad (â Choronafeirws) eu mewnforio drwy deithio o'r ardal honno i'r Deyrnas Unedig;

ystyr "Coronafeirws" ("*Coronavirus*") yw Coronafeirws y syndrom anadlu acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) sy'n achosi'r clefyd a elwir yn "COVID-19";

ystyr "Deddf 1984" ("*the 1984 Act*") yw Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984;

ystyr "gofynion ynglŷn â sgrinio" ("*screening requirements*") yw'r gofynion a nodir yn rheoliad 6(1);

ystyr "Iechyd Cyhoeddus Cymru" ("*Public Health Wales*") yw Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru(**1**);

ystyr "oedolyn cyfrifol" ("*responsible adult*"), mewn perthynas â phlentyn, yw person sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn (o fewn ystyr Deddf Plant 1989(**2**)) neu berson sydd â'r plentyn o dan ei warchodaeth neu ei ofal am y tro;

ystyr "plentyn" ("*child*") yw person o dan 18 oed;

ystyr "swyddog iechyd cyhoeddus" ("*public health officer*") yw ymgynghorydd iechyd cyhoeddus cofrestredig neu berson sy'n gweithio o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru o dan oruchwyliaeth ymgynghorydd iechyd cyhoeddus cofrestredig;

ystyr "swyddog meddygol" ("*medical officer*") yw ymarferydd meddygol cofrestredig a ddynodwyd at ddibenion y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru;

ystyr "ymgynghorydd iechyd cyhoeddus cofrestredig" ("*registered public health consultant*") yw ymgynghorydd iechyd cyhoeddus a gofrestrwyd yn broffesiynol ac sy'n gweithio yn Iechyd Cyhoeddus Cymru;

ystyr "ynysu" ("*isolation*") mewn perthynas â pherson yw gwahanu'r person hwnnw oddi wrth unrhyw berson arall mewn modd sy'n atal heintio neu halogi (â Choronafeirws)—

(a) mewn cyfleuster a ddynodir, drwy hysbysiad a gyhoeddir ar www.llyw.cymru, at ddibenion y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru;

(b) yng nghartref y person hwnnw;

(c) mewn ysbyty;

(d) mewn man addas arall.

(**1**) Sefydlwyd Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru gan O.S. 2009/2058 (Cy. 177).
(**2**) 1989 p. 41.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, mae cyfeiriad at haint neu halogiad(**3**), sut bynnag y'i mynegir, yn gyfeiriad at haint neu halogiad â Choronafeirws, ac mae ymadroddion perthynol i'w dehongli yn unol â hynny.

(3) Mae i ymadroddion Saesneg eraill a'r ymadroddion Cymraeg cyfatebol a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn ac yn Neddf 1984 yr un ystyr ag sydd iddynt yn y Ddeddf honno.

(4) Rhaid i'r hysbysiad y cyfeirir ato yn y diffiniad o "ynysu" ym mharagraff (1) gael ei ddilyn, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, drwy gyhoeddi'r hysbysiad yn y London Gazette ac mewn o leiaf un papur newydd sy'n cylchredeg yng Nghymru.

(**3**) *Gweler* adran 45A o Ddeddf 1984 i gael y dehongliad o "infection" a "contamination". Mewnosodwyd adran 45A gan adran 129 o Ddeddf 2008.